| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR: | CYNGOR SIR |
| DYDDIAD: | 26 MEDI 2013 |
| TEITL YR ADRODDIAD: | CEFNOGAETH GRWPIAU GWLEIDYDDOL |
| ADRODDIAD GAN: | PRIF WEITHREDWR |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Cyflwyno cais Grŵp Gwleidyddol Plaid Cymru am gymorth Ymchwilydd / Ymgynghorydd Gwleidyddol i gynorthwyo'r Grŵp i weithredu'n effeithiol o fewn y Cyngor |
| GWEITHREDU: | Gofynnir i Aelodau'r Cyngor Sir i ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a dod i benderfyniad ar y mater |

**CEFNOGAETH GRWPIAU GWLEIDYDDOL**

**1. CEFNDIR**

**1.1** Ar 3 Awst 2013, derbyniwyd cais ffurfiol gan Grŵp Plaid Cymru ar y Cyngor am ddarpariaeth Ymgynghorydd / Ymchwilydd Gwleidyddol i ganiatáu i'r Grŵp allu cyflawni ei ddyletswyddau a'r disgwyliadau sydd arno'n effeithiol. Gan nad oes cynsail i'r math yma o swydd o fewn y Cyngor hwn, na darpariaeth yn y gyllideb gyfredol ar gyfer cynnal swyddi cefnogaeth i grwpiau gwleidyddol, cyflwynir y mater i sylw'r Cyngor i benderfynu arno.

**1.2** Wrth baratoi'r adroddiad gwnaed ymholiadau cyffredinol i geisio sefyldu pa mor gyffredin yw'r math hwn o ddarpariaeth mewn cynghorau lleol. Daethpwyd i'r casgliad ei fod yn lled gyffredin o fewn awdurdodau yn Lloegr ond bach iawn o ddefnydd a wneir ohono ymysg awdurdodau lleol yng Nghymru. Yng Ngogledd Cymru dim ond un awdurdod lleol sy'n darparu cefnogaeth i'w grwpiau gwleidyddol, a hynny ar sail rhan-amser, yn unol â maint y grwpiau. [Yn yr awdurdod hwnnw darperir cefnogaeth i 3 allan o'r 5 grŵp sydd ar y Cyngor ar raddfa 29 awr, 15 awr ac 11 awr yr wythnos].

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn darparu cefnogaeth i'r grŵp gwleidyddol mwyaf o fewn eu cyfundrefn, a hynny ar sail swydd rhan-amser.

**1.3** Lle bo darpariaeth i roi cefnogaeth i grwpiau gwleidyddol, y math o swyddogaethau a gyflawnir gan ddeiliaid y swyddi yw:

- cymryd nodiadau mewn cyfarfodydd a darparu brîff ar gyfer cyfarfodydd i aelodau'r grŵp;
- dosbarthu gwybodaeth i aelodau'r grŵp a chynghori ar faterion o ddiddordeb neu bryder;
- delio â gohebiaeth ar ran y grŵp a monitro a chynnal trefniadau cyfathrebu effeithiol;
- cynorthwyo gyda datblygu safbwyntiau polisi a gwneud gwaith ymchwil i gefnogi hynny;
- rhwydweithio gyda grwpiau eraill tu mewn a thu allan i'r cyngor er mwyn cyd-gordio safbwyntiau gwleidyddol ar faterion perthnasol i waith y grŵp o fewn y cyngor;
- cefnogi aelodau unigol gyda'u gwaith o fewn y wardiau.

## 2. Y SEFYLLFA STATUDOL

**2.1** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (c.42) yn rhoi'r grym i awdurdodau, ag eithrio cynghorau plwyf a chymuned, i benodi cynorthwywyr i grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar yr awdurdod.

Mae rheolau clir yn y Ddeddf ynglŷn â sut y mae grŵp yn dod yn gymwys i gael cefnogaeth ac mae rheoliadau statudol unwaith y penodir cynorthwywyr gwleidyddol ynglŷn â thal ac amodau gwaith, gan mai'r gweithwyr hyn yw'r unig rai o fewn sefydliad awdurdod sy'n gallu cael eu penodi ar sail eu daliadau a'u cysylltiadau gwleidyddol.

Mae'r rheoliadau yn fodd i wahaniaethu rhwng rôl y swyddogion hyn a gweddill staff y cyngor o ran y modd y darperir cyngor ac arweiniad i aelodau etholedig yn y broses o lunio polisi a gwneud penderfyniadau.

**2.2** Mater i'r awdurdod ei hun, o fewn y cyfyngiadau a osodir gan y rheoliadau statudol, yw penderfynu ar y priodoldeb o greu'r math hwn o ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau a gynrychiolir, i bennu yn ôl maint cynrychiolaeth sawl grŵp sydd i dderbyn y cymorth os caiff ei sefydlu, a lefel y cyflog y staff a benodir.

**2.3** Dylai grwpiau gwleidyddol, a'r unigolion sy'n dal swyddi i gefnogi grwpiau gwleidyddol, ddilyn y protocol a fabwysiadwyd gan yr awdurdod i reoli'r berthynas rhwng aelodau etholedig a swyddogion tâl, gan dderbyn fod gan pob swyddog ddyletswydd cyfreithiol a rheolaethol i'r cyngor fel corfforaeth yn ei gyfanrwydd.

## 3. DARPARIAETH GYLLIDOL

**3.1** Nid oes darpariaeth gyllidol yng nghyllideb 2013/14 y Cyngor Sir ar gyfer creu swyddi i gefnogi grwpiau gwleidyddol.

Pe bai'r Cyngor yn penderfynu cymeradwyo creu swyddi o'r fath, yna gallai nodi hynny fel blaenoriaeth i'w ystyried wrth lunio cyllideb ar gyfer 2014/15, gan gymryd i ystyriaeth sefyllfa gyllidol y Cyngor a'r angen am arbedion effeithlonrwydd a thoriadau.

Ar y llaw arall, os yw'n penderfynu cymeradwyo sefydlu swyddi i gefnogi grwpiau gwleidyddol i ddod yn weithredol yn y flwyddyn gyllidol bresennol, yna rhaid iddo nodi'n glir dan pa bennawd yn y gyllideb y dylid gwneud y ddarpariaeth a gosod arweiniad priodol i'r swyddogion mewn perthynas â chyflawni hynny.

**3.2** Er gwybodaeth, mae'r awdurdod yng Ngogledd Cymru sy'n darparu y math hwn o gefnogaeth wedi pennu'r lefel cyflog ar amrediad pwyntiau 25-28 Graddfa Tâl Llywodraeth Leol, sydd yn fras yn £28,500 gyda chostau cyflog [heb gynnwys costau swyddfa].

## 4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Aelodau'r Cyngor Sir benderfynu ar y mater hwn gan gadw dan ystyriaeth sefyllfa gyllidol presennol y Cyngor a'r rhagolygon cyllid at y dyfodol.

**Richard Parry Jones** **19 Medi 2013**
**Prif Weithredwr**